Menter Gorllewin Sir Gâr

Cadeirydd/Chair: Arwel Lloyd

Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont,
Castell Newydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DX

Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin,
Caerfyrddin,
Sir Gâr, SA31 1BN

01239 712934

ymholiad@mgsg.cymru
www.mentergorllewinsirgar.cymru

11/12/18

CYSTADLEUAETH CARDEN SANTES DWYNWEN 2018

Annwyl Staff,

Mewn cydweithrediad â Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Gâr, mae'n bleser gan Menter Gorllewin Sir Gâr redeg cystadleuaeth Creu Carden Santes Dwynwen eleni eto, sydd yn agored i bob ysgol gynradd ac uwchradd yn Sir Gâr. Bydd angen i gynigion fod ar bapur A4 ac yn addas ar gyfer Santes Dwynwen fel nawddsant Cariadon Cymru a rhaid i ni allu gweld y geiriau Santes Dwynwen yn glir ar y garden.

Bydd y cynigion gorau yn cael eu harddangos mewn ffenestri gwahanol siopau ar Stryd y Brenin er mwyn i bawb eu gweld. Bydd pob cynnig sy'n dod i'r brig yn cael ei wobrwyo â hamper Masnach Deg.

Dyma'r categorïau oedran:

- Oedran Cyfnod Sylfaen
- Oedran Ysgol Gynradd
- Oedran Ysgol Uwchradd

Mae 100 o gardiau enillydd 2018 wedi eu hargraffu bellach. Bydd yr enillydd a'r ysgol yn derbyn nifer o gardiau, a bydd rhai ar gael mewn siopau lleol Cymraeg.

Os hoffai eich ysgol chi gymryd rhan yn y gystadleuaeth, anfonwch bob cynnig ar dudalen A4 at Sian Elin Williams, Menter Gorllewin Sir Gâr, Yr Atom, 18 Stryd Y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1BN, erbyn y 12.00 ar y 19eg o Ionawr 2018. Sicrhewch fod pob cynnig yn nodi **enw, oedran ac ysgol y cystadleuydd yn glir.**

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cynigion a phob lwc i bawb.

Yn gywir

Sian Elin Williams
(Swyddog Datblygu)